COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd - Cyfeirnod. DLl 258

Amseru: Arferol

Teitl: Estyn y Cytundeb Unigolion Ifainc Coll

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:

Ym mis Ebrill 2020, llwyddodd Llamau i dderbyn yr ail gytundeb ar gyfer gwasanaethau sy'n cynnig cyflafareddu i bobl ifainc yr adroddwyd eu bod ar goll yn ardal Dyfed-Powys. Gwobrwywyd y cytundeb gwreiddiol am gyfnod o 2 flynedd gyda dewis i'w estyn wedi hynny ar sail flynyddol am hyd at 3 blwyddyn arall.

Mae gwireddu manteision yr ymgymerwyd ag ef ar y cynllun wedi arddangos canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys:

- Gostyngiad yn nifer yr unigolion yr adroddir eu bod ar goll yn HDP
- Cynnydd o ran adnabyddiaeth a dealltwriaeth o ffactorau risg sy'n ymwneud â phobl ifainc/plant coll yn benodol
- Cynnydd o ran ymgysylltiad â phobl ifainc sydd wedi mynd ar goll
- Cynnydd o ran adnabod tueddiadau sy'n ymwneud â lleoliadau neu unigolion

Yn seiliedig ar yr uchod, awgrymir estyn y cytundeb ymhellach am gyfnod mynegol o 3 blynedd, gan ddwyn dyddiad terfyn y cynllun i 31 Mawrth 2025. Bydd hyn yn darparu rhywfaint o sefydlogrwydd ar gyfer y darparwr gwasanaeth ac yn sicrhau bod darpariaeth ar gael i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd.

Bydd y cyfnod estyniad hwn yn cynnwys adolygiad blynyddol o'r cynllun er mwyn sicrhau bod cyflenwi dal yn effeithiol a bod lefelau ariannu ar gael ac yn briodol. Hefyd, mae'n cynnwys ymgodiad dros dro o 0.5 cyfwerth ag amser llawn am gyfnod o 12 mis o fis Ionawr 2022 yn unol â chofnod penderfyniad DLl247 i reoli'r cynnydd yn nifer yr achosion a'u cymhlethdod.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Argymhelliad:
Bod CHTh yn cymeradwyo'r cyfnod estyniad sy'n weddill ar gyfer y cyflafareddu ar gyfer y cytundeb unigolion ifainc coll, gan ddwyn y dyddiad terfyn mynegol i 31 Mawrth 2025. Mae hyn yn cynnwys adolygiad blynyddol o gyflenwi effeithiol y cynllun a lefelau ariannu.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: **Dyddiad: 08/06/2022**